# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 15 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **09:30 - 14:05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_15_11_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Mair Davies, Cadeirydd, Royal Pharmaceutical Society**<br>**Marc Donovan, Fferylliaeth Gymunedol Cymru**<br>**Paul Gimson, Royal Pharmaceutical Society**<br>**Russell Goodway, Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru**<br>**Jason Harding, Diabetes UK**<br>**Dr Ian Millington, Cymdeithas Feddygol Prydain**<br>**Dr Aled Roberts, Cymdeithas Diabetolegwyr Clinigol Prydain**<br>**Dr Mark Temple, Cymdeithas Feddygol Prydain**<br>**Dai Williams, Diabetes UK**<br>**Dr Meurig Williams,, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Vaughan Gething a Darren Millar. Nid oedd dirprwyon.

## 2. Ymchwiliad i'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol - Tystiolaeth lafar

### 2a. Diabetes UK Cymru

2.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

### 2b. Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Cymdeithas Diabetolegwyr Clinigol Prydain, a Chymdeithas Feddygol Prydain

2.2 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau oddi wrth Aelodau'r Pwyllgor.

2.3 Cytunodd Dr Temple i roi nodyn i'r Pwyllgor ar y gostyngiad yn nifer y meddygon iechyd cyhoeddus yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

### 2c. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Fferylliaeth Gymunedol Cymru

2.4 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau oddi wrth Aelodau'r Pwyllgor.

2.5 Cytunodd Mr Gimson i rannu papur â'r Pwyllgor ar ganlyniadau fferyllwyr yn darparu addysg strwythuredig i gleifion diabetes.

## 3. Papurau i'w nodi

### Blaenraglen Waith - Tachwedd i Ragfyr 2012

3.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am amser yn gynnar yn 2013 i gwrdd â'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol, Deoniaeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol eraill i barhau â'i ystyriaeth o gynlluniau ad-drefnu gwasanaethau y byrddau iechyd.

### Gohebiaeth gan Mick Antoniw AC ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

3.4 Dywedodd Mick Antoniw wrth y Pwyllgor na fyddai'n bresennol yn y sesiynau lle fydd y Pwyllgor yn trafod y Bil, gan mai ef yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

### Gohebiaeth gan Arweinydd y Tŷ ar Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) (Diwygio)

3.5 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac ar gyfer eitem 1 y cyfarfod ar 21 Tachwedd

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5. Ymchwiliad i Ofal Preswyl i Bobl Hŷn - Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft a chytunodd i drefnu sesiwn i'w drafod eto ar 21 Tachwedd.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.